Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 16/2017
DYDDIAD CYHOEDDI: 28/03/2017

Gwerthusiad o'r dull Rheoli Achosion Uwch

Atodiad 1: Deunyddiau Ymchwil

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 Digital 978-1-4734-9181-6

Gwerthusiad o'r dull Rheoli Achosion Uwch
Atodiad 1: Deunyddiau ymchwil

Cordis Bright

Safbwyntiau'r ymchwilwyr, nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd, a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Rhagor o wybodaeth:
Semele Mylona
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Semele.Mylona@wales.gsi.gov.uk

Rhestr gynnwys

Atodiad A: Model Rhesymeg y dull ECM 2

Atodiadau B: Cyfweliadau â staff 4

Atodiad C: Data/dogfennau a ddarparwyd i lywio'r adroddiad hwn 6

Atodiad D: Deunyddiau ymchwil 7

Atodiad A: Model Rhesymeg y dull ECM

Nod y dull ECM yw darparu fframwaith:

- Lle mae ymarferwyr yn gallu deall sut mae trawma ac ymlyniad yn gynnar mewn plentyndod yn gallu effeithio ar: (a) anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl person ifanc; (b) gallu person ifanc i ymgysylltu'n effeithiol ag ymyriadau cyfiawnder ieuenctid.
- Ar gyfer darparu dull ar sail seicoleg o greu achos a chynllunio ymyriadau amlasiantaeth a fydd yn galluogi ymarferwyr i addasu ymarfer a theilwra ymyriadau cyfiawnder ieuenctid yn unol ag anghenion datblygiadol ac unigol.
- Lle mae dull priodol o nodi anghenion yn arwain at atgyfeiriad am ymyriad arbenigol.

Tabl 1: Model Rhesymeg

Mewnbwn	**Gweithgareddau**	**Allbwn**	**Canlyniadau (b = byr / c = canolig / h = hir)**
Seicolegwyr Clinigol (8B, 8a), **Cymorth gweinyddol** **Gwybodaeth cyn-ddarllen a pharatoadol i ymarferwyr a rheolwyr** **Diffiniad eang o'r hyn a olygir wrth sôn am 'cymhleth' a 'cyson'** **Pecyn hyfforddiant** **Canllawiau ymarfer**	**Mae'r staff yn cael hyfforddiant mewn datblygiad plentyndod, yn arbennig ymlyniad a thrawma; gwaith ymgysylltu a therapiwtig a defnyddio'r Model Gwella o Drawma.** **Dan arweiniad seicoleg:** **creu achos;** **cynllunio ymyriad yn unol ag anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl;** **Adolygiadau Achos Ffurfiannol; a myfyrio ar achosion a'u trafod.** **Goruchwyliaeth glinigol unigol.**	**Mae ymarferwyr yn fwy ymwybodol o sut mae ymlyniad a thrawma mewn plentyndod cynnar yn effeithio ar y glasoed.** **Gwella effeithiolrwydd o ran nodi ac asesu anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl.** **Cynlluniau ymyrryd wedi'u teilwra'n well i anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl plant unigol.** **Mae gan ymarferwyr fwy o hyder mewn trefnu ymyriadau er mwyn mynd i'r**	**Nodi a mynd i'r afael ag anghenion sylfaenol pobl ifanc yn fwy effeithiol (B).** **Mae'r gweithlu'n fwy cymwys i ddeall sut mae ymlyniad a thrawma mewn plentyndod cynnar yn gallu effeithio ar ddatblygiad ac iechyd meddwl (B).** **Mae pobl ifanc yn cael eu dargyfeirio'n briodol i gymorth ac ymyriadau arbenigol (B).** **Mae pobl ifanc yn mwynhau mwy o sefydlogrwydd (B).** **Mae mwy o bobl ifanc yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â gorchmynion statudol (C).** **Mae mwy o bobl ifanc yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â**

Mewnbwn	Gweithgareddau	Allbwn	Canlyniadau (b = byr / c = canolig / h = hir)
	Goruchwyliaeth glinigol mewn grŵp. **Cymuned ar-lein.**	**afael ag anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl.** **Mae ymarferwyr yn fwy cymwys i gynnwys pobl ifanc yn eu dedfryd a'u cymorth.** **Mae rheolwyr yn fwy cymwys i helpu eu staff i fynd i'r afael ag anghenion ac ymddygiad y garfan hon.** **Nid yw pobl ifanc yn gadael y cynllun ymyrryd a'r cymorth a ddarperir.** **Mae pobl ifanc yn cael eu dargyfeirio i'r gwasanaethau cymorth sydd fwyaf addas i ateb eu hanghenion nhw.**	**gwasanaethau cymorth(C).** **Mae pobl ifanc yn profi llai o straen ôl-drawmatig a symptomau seicolegol cysylltiedig (C).** **Mae aeddfedrwydd emosiynol pobl ifanc yn gwella (C).** **Llai o dorri gorchmynion (C).** **Llai o achosion o droseddu (C).** **Llai o droseddu difrifol (C).** **Llai o bobl ifanc yn y garfan Tîm Troseddau Ieuenctid sy'n aildroseddu'n gyson (I).** **Llai o achosion o aildroseddu yn y garfan Cyfiawnder Ieuenctid (I).** **Mae gan fwy o bobl ifanc agweddau ac ymddygiad rhag-gymdeithasol (I).**

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Atodiadau B: Cyfweliadau â staff

	Tachwedd 2015 - Ionawr 2016	Chwefror 2016 - Tachwedd 2016
FACTS a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid	Uwch Gynghorydd – Casework Innovation, YJB Cymru	Uwch Gynghorydd – Casework Innovation, YJB Cymru
	Rheolwr Rhaglen a'r Prosiect, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid	Seicolegydd Clinigol Uwch Arbenigol, Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan (FACTS)
	Seicolegydd Clinigol Uwch Arbenigol, Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan (FACTS)	
Tîm Troseddau Ieuenctid A	Rheolwr tîm	Rheolwr tîm
	Rheolwyr achos x3	Rheolwyr achos x3
	Aelodau o'r tîm Goruchwylio a Goruchwyliaeth Ddwys x3	Aelodau o'r tîm Goruchwylio a Goruchwyliaeth Ddwys x2
	Gweithiwr camddefnyddio sylweddau (blaenorol)	Gweithiwr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth
	Nyrs CAMHS a gweithiwr iechyd meddwl	Nyrs CAMHS a gweithiwr iechyd meddwl
Tîm Troseddau Ieuenctid B	Rheolwr achos	Rheolwyr achos x2
	Gweithiwr Cyfiawnder Adferol	Cydgysylltydd Ataliol
	Uwch ymarferydd	Cydgysylltydd Goruchwylio a Goruchwyliaeth Ddwys

	Gweithiwr camddefnyddio sylweddau	
Tîm Troseddau Ieuenctid C	Rheolwr Tîm Troseddau Ieuenctid	Rheolwr Tîm Troseddau Ieuenctid
	Rheolwyr achos x3	Rheolwr gweithrediadau
	Uwch ymarferydd	Rheolwyr achos x3

Atodiad C: Data/dogfennau a ddarparwyd i lywio'r adroddiad hwn

Communication Strategy: Enhanced Case Management project (Mehefin 2016)

Complex Needs Programme Board (dim dyddiad): Agenda item 5: test site selection

Criteria review for Enhanced Case Management project (Mai 2015)

E-bost gan Lynzi Jarman, 24 Chwefror, parthed nifer yr achosion gafodd eu cynnwys yn y treial ECM

Enhanced Case Management: Developing our approach to complex cases in youth offending teams

Enhanced Case Management Project: Practice Guidance Practice Materials for Test Implementation of the Enhanced Case Management Approach: Mai, 2015 v1.4

Enhanced Case Management Project Extension: e-bost gan Lynzi Jarman i Dimau Troseddau Ieuenctid (Ebrill 2016)

Enhanced Case Management Project: Lessons from Practice (Tachwedd 2016)

Cofnodion Bwrdd y Rhaglen Anghenion Cymhleth ar 27 Mai 2015

Papurau Bwrdd y Rhaglen Anghenion Cymhleth ar 27 Mai 2015

Profiling Welsh young people with prolific offending histories: YJB Cymru. Awst 2012

Project newsletter (Awst 2016) for Enhanced Case Management approach: YJB Cymru

Quick reference case record spreadsheet (Tachwedd 2016)

Specification for Research in the YJB/Welsh Government Enhanced Case Management Practice Project

Supplementary Information Expressions of Interest Case Management Project: Mawrth, 2014 v.01

Adroddiadau YJB Casework Innovation Project Highlight and Exception Reports ar gyfer:

- Gorffennaf-Medi 2013
- Medi-Rhagfyr 2013
- Ionawr-Ebrill 2014
- Mai-Gorffennaf 2014
- Tachwedd 2014
- Chwefror 2015
- Ebrill 2015
- Mehefin-Medi 2015
- Medi 2015 - Ionawr 2016

Atodiad D: Deunyddiau ymchwil

1. Cyfweliad arweiniol i'w ddefnyddio gydag ymarferwyr a rheolwyr

Cwestiwn	Gwybodaeth bellach / dilyniant
Beth oedd eich cyfraniad i'r dull Rheoli Achosion Uwch hyd yma?	Rôl, cyfrifoldebau, hyd y cyfraniad Cwestiynau maen nhw'n gyfforddus yn eu trafod
Sut fyddech chi'n disgrifio'r dull Rheoli Achosion Uwch?	Sail resymegol, pa broblem mae'n ceisio ei datrys? Nodau, amcanion? Strwythur, fformat? Rolau, cyfrifoldebau?
I ba raddau mae treial y dull o Reoli Achosion Uwch yn cael ei weithredu yn unol â'r disgwyliadau?	Agweddau ar weithredu i'w hystyried: • Cynllun y treial a'r dull • Dewis a dethol safle • Cyfraniad y Tîm Troseddau Ieuenctid i'r treial • Meini prawf y rhaglen/atgyfeiriadau • Hyfforddiant • Staffio • Gweithredu'r treial • Llywodraethu ac atebolrwydd • Monitro'r prosiect • Cyllid ac adnoddau eraill Pa mor driw ydyw i'r model gwreiddiol? Beth sy'n helpu, beth sy'n rhwystr? Oes unrhyw agweddau sydd angen eu gwella ymhellach neu gellir gweithredu i'r eithaf a chael yr effaith fwyaf?
I ba raddau mae lefel y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r dull Rheoli Achosion Uwch yn unol â'r disgwyliadau?	Niferoedd sy'n cymryd rhan Ydy hyn yn unol â'r disgwyliadau? Pam? A oes yna grwpiau penodol nad ydynt yn cymryd rhan yn y dull Rheoli Achosion Uwch? Pam? Beth sy'n helpu i sicrhau bod pobl yn cymryd rhan? Unrhyw awgrymiadau neu rwystrau i wella? Cynnal y niferoedd sy'n cymryd rhan Ydy hyn yn unol â'r disgwyliadau? Pam? A oes yna grwpiau penodol nad ydynt yn parhau i gymryd rhan? Pam? Beth sy'n helpu i sicrhau bod yr ymgysylltu'n parhau? Unrhyw awgrymiadau neu rwystrau i wella?
I ba raddau mae'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gwella ymarfer gweithwyr y Tîm Troseddau Ieuenctid?	Sut ydych chi'n gwybod/pam rydych chi wedi ateb fel hyn? Oes gennych chi sylwadau penodol am hyfforddiant, creu achos a/neu oruchwyliaeth glinigol? Beth yw prif feysydd yr effaith? Dyma'r rhai y mae'r Model

Cwestiwn	Gwybodaeth bellach / dilyniant
	Rhesymeg yn eu rhagweld: • Gallu nodi anghenion sylfaenol pobl ifanc yn fwy effeithiol • Dealltwriaeth well o sut mae ymlyniad a thrawma mewn plentyndod cynnar yn gallu effeithio ar ddatblygiad ac iechyd meddwl • Nodi ac asesu anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl yn fwy effeithiol • Mae cynlluniau ymyrryd wedi'u teilwra'n well i anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl y plentyn unigol • Mwy o hyder o ran gosod ymyriadau mewn trefn er mwyn mynd i'r afael ag anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl • Mwy cymwys i gynnwys pobl ifanc yn eu dedfryd a'r cymorth sydd ar gael. Sut mae hyn yn wahanol i'r ymarfer blaenorol? Ydy lefel a natur y newid yn unol â'r disgwyliadau? Ydy hyn wedi effeithio ar y ffordd rydych chi'n meddwl am weithio gyda phobl ifanc? Allwch chi roi enghraifft? Beth sy'n helpu, beth sy'n rhwystr? Oes unrhyw agweddau sydd angen eu gwella ymhellach neu y gellir eu gweithredu i'r eithaf a chael yr effaith fwyaf?
I ba raddau mae'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gwella ymarfer rheolwyr Tîm Troseddau Ieuenctid?	Sut ydych chi'n gwybod hyn/pam rydych chi wedi ateb fel hyn? Beth yw prif feysydd yr effaith? Dyma'r rhai y mae'r Model Rhesymeg yn eu rhagweld: • Mae'r rheolwyr yn fwy cymwys i helpu eu staff i fynd i'r afael ag anghenion ac ymddygiad y garfan hon. Oes unrhyw effaith ar feysydd rheoli eraill, e.e., goruchwylio. trosolwg, sicrwydd ansawdd? Oes gennych chi unrhyw farn benodol ar effaith goruchwyliaeth glinigol? Sut mae hyn yn wahanol i'r ymarfer blaenorol? Ydy lefel a natur y newid yn unol â'r disgwyliadau? Ydy hyn wedi effeithio ar y ffordd rydych chi'n meddwl am weithio gyda phobl ifanc? Allwch chi roi enghraifft? Beth sy'n helpu, beth sy'n rhwystr? Oes unrhyw agweddau sydd angen eu gwella ymhellach neu y gellir eu gweithredu i'r eithaf a chael yr effaith fwyaf?
I ba raddau mae'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gwella	Sut ydych chi'n gwybod hyn/pam rydych chi wedi ateb fel hyn?

Cwestiwn	Gwybodaeth bellach / dilyniant
canlyniadau i bobl ifanc?	Beth yw prif feysydd yr effaith? Dyma'r rhai y mae'r Model Rhesymeg yn eu rhagweld: • Wedi'u dargyfeirio'n fwy priodol i gymorth ac ymyriadau arbenigol • Mwy o sefydlogrwydd • Gallu ymgysylltu â gorchmynion statudol yn well • Gallu ymgysylltu'n fwy effeithiol â gwasanaethau cymorth • Trallod ôl-drawmatig a symptomau seicolegol cysylltiedig llai difrifol • Gwelliannau i aeddfedrwydd emosiynol • Llai o dorri gorchmynion • Llai o achosion o droseddu • Llai o droseddu difrifol • Llai o droseddu cyson iawn • Mwy o agweddau ac ymddygiad rhag-gymdeithasol. Sut mae hyn yn wahanol i'r ymarfer blaenorol? Ydy lefel a natur y newid yn unol â'r disgwyliadau? Beth sy'n helpu, beth sy'n rhwystr? Oes unrhyw agweddau sydd angen eu gwella ymhellach neu y gellir eu gweithredu i'r eithaf a chael yr effaith fwyaf?
I ba raddau y dylid cyflwyno'r dull Rheoli Achosion Uwch i Dimau Troseddau Ieuenctid eraill?	Pam ydych chi wedi ateb fel hyn? Pa agweddau ar y dull hwn sydd bwysicaf? Pam? Pa agweddau ar y dull sy'n llai pwysig? Pam? Oes angen cyflwyno unrhyw newidiadau i'r model neu'r dull gweithredu er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf? Oes gennych chi unrhyw farn ynglŷn â'r ffordd orau o fonitro a gwerthuso'r dull Rheoli Achosion Uwch (gweithredu ac effaith) ar sail barhaus?

2. Deunyddiau cydsyniad gwybodus i'w defnyddio gyda phobl ifanc

Enw'r sefydliad ymchwil: Cordis Bright

Enw'r cleient: Llywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru

Enw'r prosiect: Gwerthusiad o'r dull Rheoli Achosion Uwch

Mae'r Ffurflen Cydsyniad Gwybodus yn cynnwys dwy ran:

- Taflen wybodaeth (sy'n rhoi gwybodaeth i chi am yr ymchwil).
- Tystysgrif gydsynio (rydych chi'n ei llofnodi os ydych chi'n cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil).

Cewch ddau gopi o'r ffurflen hon.

Rhan 1: Taflen wybodaeth

Cyflwyniad

Sefydliad o'r enw Cordis Bright ydyn ni. Mae Llywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru wedi gofyn i ni ymchwilio i weld a yw'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc. Fel rhan o'r dull hwn, mae gweithiwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn treulio mwy o amser yn dod i adnabod person ifanc a gwneud gweithgareddau gydag e/hi sy'n helpu i wella bywyd y person ifanc dan sylw a sicrhau nad yw'n troseddu yn y dyfodol.

Mae'r ffurflen hon yn rhoi gwybodaeth i ti am yr ymchwil ac yn gofyn i ti fod yn rhan o astudiaeth ymchwil. Ti biau'r dewis o ran cymryd rhan neu beidio. Byddwn ni'n trafod yr ymchwil hwn gyda dy riant/rhieni neu warcheidwaid. Os wyt ti am gymryd rhan yn yr ymchwil, mae'n rhaid i dy rieni/gwarcheidwaid gytuno hefyd. Ond os dwyt ti ddim am gymryd rhan, does dim rhaid i ti, hyd yn oed os yw dy rieni/gwarcheidwad wedi cytuno.

Mae croeso i ti drafod unrhyw beth yn y ffurflen hon gyda dy rieni/gwarcheidwaid, neu bwy bynnag rwyt ti'n teimlo'n gyfforddus yn siarad ag e/hi. Yna, gallet benderfynu a wyt am gymryd rhan neu beidio. Does dim rhaid i ti benderfynu ar unwaith.

Efallai nad wyt ti'n deall pob gair, neu eisiau rhagor o wybodaeth am rywbeth. Os oes gen ti unrhyw gwestiynau, cofia holi'r sawl ofynnodd i ti lenwi'r ffurflen hon.

Pam rydyn ni'n gwneud yr ymchwil hwn?

Rydyn ni am wybod a yw'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl ifanc. Mae'r dull Rheoli Achosion Uwch yn cynnwys gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn treulio mwy o amser yn dod i nabod person ifanc, a gwneud gweithgareddau sy'n helpu i wella bywyd person ifanc a sicrhau nad yw'n troseddu yn y dyfodol.

Dewis pobl ifanc i gymryd rhan: Pam ydych chi'n gofyn i mi?

Rydyn ni'n gofyn i ti gymryd rhan yn yr ymchwil hwn, am dy fod ti wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gan ddefnyddio'r dull Rheoli Achosion Uwch. Hoffem wybod a oedd y cyfan yn ddefnyddiol i ti, ac a wnaeth unrhyw wahaniaeth.

Cymryd rhan yn wirfoddol: Oes raid i mi wneud hyn?

Does dim rhaid i ti gymryd rhan yn yr ymchwil hwn. Os byddi di'n penderfynu peidio cymryd rhan, dim problem, does dim byd yn newid. Hyd yn oed os byddi di'n cytuno nawr, mae croeso i ti newid dy feddwl yn nes ymlaen. Hefyd, os wyt ti'n penderfynu cymryd rhan, galli di ddewis pa rannau o'r ymchwil i gyfrannu atynt.

Cymryd rhan: Beth mae'r ymchwil yn ei olygu?

Os byddi di'n cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil, hoffem i ti wneud hynny mewn tair ffordd:

- Llenwi arolwg ar ôl i ti orffen bod yn rhan o'r dull Rheoli Achosion Uwch. Bydd hwn yn gofyn cwestiynau am dy waith gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- Hefyd, byddwn yn gofyn i ti gwrdd ag ymchwilydd. Bydd hyn yn digwydd tua diwedd dy gyfraniad i'r dull Rheoli Achosion Uwch. Bydd yr ymchwilydd yn gofyn cwestiynau am dy gyfnod gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ac a yw wedi gwneud unrhyw wahaniaeth cadarnhaol i dy fywyd.
- Byddwn yn hoffi i ti ddarllen ffeil y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid am y gwaith i ti ei gwblhau gyda nhw.

Does dim rhaid i ti gymryd rhan ym mhob un o'r tair elfen os dwyt ti ddim eisiau.

Cymryd rhan – beth yw'r manteision a'r anfanteision?

Y brif fantais yw y bydd dy sylwadau di'n ein helpu ni i benderfynu a yw'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Hefyd, bydd yn rhoi cyfle i ti ddweud wrthym am dy brofiadau o weithio gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Does dim anfantais wirioneddol o gymryd rhan. Yr unig beth posib arall yw y gallem ofyn i ti fynychu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid am gyfarfod ychwanegol er mwyn cwrdd ag ymchwilydd.

Ad-daliadau: Ydw i'n cael unrhyw beth am fod yn rhan o'r ymchwil?

Nac wyt.

Cyfrinachedd: Ydy pawb yn mynd i wybod am hyn?

Yr unig bobl fydd yn gwybod dy fod ti'n rhan o'r ymchwil, yw ti, dy rieni/gwarcheidwaid, dy weithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac ymchwilwyr Cordis Bright.

Os byddi di'n llenwi arolwg, fydd neb yn gwybod beth rwyt ti'n ei ddweud (fyddwn ni ddim yn gofyn am dy enw, a bydd dy ymatebion yn gyfrinachol). Fydd dim rhaid i ti ateb unrhyw gwestiwn os dwyt ti ddim eisiau.

Os byddi di'n cwrdd ag ymchwilydd, dim ond yr ymchwilwyr fydd yn gwybod beth rwyt ti'n ei ddweud (bydd dy gyfarfod yn breifat).

Os byddi di'n gadael i ni ddarllen y ffeil sydd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid am dy waith gyda nhw, fyddwn ni ddim yn dweud wrth unrhyw un arall beth sydd yn y ffeil.

Bydd unrhyw wybodaeth amdanat ti sy'n deillio o'r cyfarfod gyda'r ymchwilydd, a thrwy edrych ar y ffeil, yn cael ei rhoi o'r neilltu a dim ond yr ymchwilydd fydd yn gallu ei gweld. Bydd unrhyw wybodaeth amdanat yn cynnwys rhif yn hytrach na dy enw. Dim ond yr ymchwilydd fydd yn gwybod beth yw dy rif, a byddwn ni'n storio'r wybodaeth yn gwbl saff a diogel. Fyddwn ni ddim yn rhannu dy wybodaeth di, nac yn ei rhoi i neb arall heblaw ymchwilwyr Cordis Bright. Bydd y wybodaeth yn yr arolwg yn gwbl gyfrinachol. Fyddwn ni ddim yn gwybod beth rwyt ti'n ei ysgrifennu.

Yr unig adeg na fyddwn ni, o bosib, yn cadw gwybodaeth gen ti'n breifat neu'n gyfrinachol, os byddi di'n dweud rhywbeth wrthym sy'n gwneud i ni feddwl dy fod ti neu rywun arall mewn perygl.

Rhannu'r casgliadau: fydda i'n cael gwybod beth yw'r canlyniadau?

Bydd y gwaith ymchwil yn gorffen yn Hydref 2016. Ar ôl i ni orffen yr ymchwil, byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad i ddweud wrth bobl beth rydyn ni wedi'i ddysgu am y dull Rheoli Achosion Uwch ac a yw wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i bobl ifanc. Hefyd, byddwn ni'n mynychu cyfarfodydd ac yn trafod ein canlyniadau gydag aelodau o Lywodraeth Cymru a staff Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. Efallai y bydd ein hadroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefannau hefyd. Os hoffet ti weld canlyniadau'r gwaith ymchwil, cer i wefan Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru ar ôl mis Hydref 2016.

Ni fydd yr adroddiad yn dweud wrth bobl dy fod ti wedi cymryd rhan yn yr ymchwil (byddi di'n ddienw), nac yn cyfeirio at unrhyw beth ddwedaist ti wrthym (bydd yn gyfrinachol).

Yr hawl i wrthod neu dynnu'n ôl: Alla i ddewis peidio â chymryd rhan yn yr ymchwil? Alla i newid fy meddwl?

Does dim rhaid i ti gymryd rhan yn yr ymchwil os dwyt ti ddim eisiau. Os wyt ti'n penderfynu peidio â chymryd rhan, dim problem, does dim yn newid. Hyd yn oed os wyt ti'n cytuno nawr, gallet ti newid dy feddwl yn ddiweddarach – mae hynny'n iawn hefyd. Hefyd, os wyt ti'n cytuno i gymryd rhan, galli di ddewis pa rannau o'r ymchwil i gyfrannu ato.

Cysylltu: Â phwy alla i siarad neu ofyn cwestiynau?

Os oes gen ti unrhyw gwestiynau, hola'r sawl roddodd y ffurflen hon i ti. Gallet hefyd siarad gyda rhywun arall am yr ymchwil hwn, er enghraifft dy rieni/gwarcheidwaid, aelodau eraill o'r teulu, ffrindiau neu athro. Mae croeso i ti gysylltu ag ymchwilydd Cordis Bright hefyd. Ei enw yw Colin Horswell, ac fe alli di ei ffonio ar 020 7330 9170 neu e-bostio colinhorswell@cordisbright.co.uk.

Os byddi di'n penderfynu cymryd rhan yn yr ymchwil, cei gopi o'r ffurflen hon i'w chadw i ti dy hun. Gallet ofyn i dy rieni/gwarcheidwaid i ofalu amdani.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Os wyt ti'n hapus i gymryd rhan yn yr ymchwil, yna llenwa'r ffurflen drosodd. Os dwyt ti ddim am gymryd rhan, dim problem, rho wybod i weithiwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Os wyt ti'n cytuno i gymryd rhan, fydd dim byd yn digwydd ar unwaith. Pan fyddi di bron â chwblhau'r dull Rheoli Achosion Uwch, yna bydd rhywun yn gofyn i ti lenwi arolwg ac yn gofyn pryd yw'r amser gorau i ti gwrdd ag ymchwilydd Cordis Bright.

RHAN 2: Tystysgrif Gydsynio Ticia'r bocs os wyt ti'n cytuno

Rwy'n deall mai nod y gwaith ymchwil yw canfod a yw'r dull

Rheoli Achosion Uwch yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl ifanc.

Rwy'n cytuno i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil.

Rwy'n cytuno i gwblhau arolwg yn ymwneud â'm cysylltiad â'r dull

Rheoli Achosion Uwch.

Rwy'n cytuno i gyfarfod ag ymchwilydd o gwmni Cordis Bright ar ddiwedd fy nghysylltiad â'r dull Rheoli Achosion Uwch i siarad am fy mhrofiadau.

Rwy'n cytuno bod ymchwilydd o gwmni Cordis Bright yn gallu darllen ffeil y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ymwneud â'm gwaith gyda nhw.

Rwy'n deall fy mod yn gallu newid fy meddwl ynglŷn â chymryd rhan unrhyw bryd.

Dy enw

Dy lofnod

Dyddiad

Dychwela'r ffurflen hon i'r person a ofynnodd i ti ei chwblhau.

Nodyn i'r gweithiwr YOS: anfonwch y ffurflen hon at Colin Horswell yn y cyfeiriad Rhadbost canlynol (does dim angen stamp): Cordis Bright, RHADBOST RTLL-EART-CETT, Thomas Ford House, 23-24 Smithfield Street, Llundain EC1A 9LF

3. Deunyddiau cydsyniad gwybodus i'w defnyddio gyda rhieni/gwarcheidwaid

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Gwerthusiad o'r dull Rheoli Achosion Uwch yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

Rydyn ni wedi gofyn i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid anfon y llythyr hwn atoch am fod eich plentyn yn helpu i dreialu ffordd newydd i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid weithio gyda phobl ifanc. Dull Rheoli Achosion Uwch yw'r enw arno. Fel rhan o'r dull hwn, mae gweithiwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn treulio rhagor o amser yn dod i nabod person ifanc a gwneud gweithgareddau gyda nhw sy'n helpu i wella bywyd y person ifanc a sicrhau nad yw'n troseddu yn y dyfodol.

Mae'r llythyr hwn yn ymwneud â gwerthusiad o'r dull Rheoli Achosion Uwch. Cynhelir y gwerthusiadau gan ymchwilwyr Cordis Bright. Mae Llywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru wedi gofyn iddyn nhw ganfod a yw'r dull newydd yn effeithiol ac yn helpu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i weithio'n dda gyda phobl ifanc.

Diben y llythyr hwn yw gofyn:

(a) A ydych chi'n fodlon i'ch plentyn fod yn rhan o'r gwerthusiad o'r dull Rheoli Achosion Uwch.
(b) A ydych chi'n hapus i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid anfon eich manylion cyswllt i dîm ymchwil Cordis Bright sy'n cynnal y gwerthusiad, er mwyn iddyn nhw allu cynnal cyfweliad byr dros y ffôn gyda chi am ran eich plentyn yn y dull Rheoli Achosion Uwch.

Rydyn ni wedi cynnwys rhagor o wybodaeth am yr ymchwil a beth fydd yn ei olygu i chi a'ch plentyn.

Os ydych chi'n hapus i gymryd rhan ac yn fodlon i'ch plentyn fod yn rhan o'r gwerthusiad, yna does dim angen i chi wneud unrhyw beth. Bydd aelod o'r tîm ymchwil yn cysylltu â chi tua diwedd cyfnod eich plentyn gyda'r dull Rheoli Achosion Uwch i wneud trefniadau.

Os nad ydych chi am gymryd rhan, yna rhowch wybod i'r canlynol:

Enw'r unigolyn

Rhif ffôn

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymchwil, ffoniwch Colin Horswell yn Cordis Bright ar 020 7330 9170 neu colinhorswell@cordisbright.co.uk.

4. Ffurflen cydsyniad gwybodus ar gyfer rhieni/gofalwyr sy'n gysylltiedig â'r dull Rheoli Achosion Uwch

Enw'r sefydliad ymchwil: Cordis Bright

Enw'r cleient: Llywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru

Enw'r prosiect: Gwerthusiad o'r dull Rheoli Achosion Uwch

Cyflwyniad

Sefydliad ymchwil o'r enw Cordis Bright ydyn ni. Mae Llywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru wedi gofyn i ni ymchwilio i weld a yw'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc. Mae'r dull hwn yn golygu bod gweithiwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn treulio rhagor o amser yn dod i nabod person ifanc a gwneud gweithgareddau sy'n ei helpu i wella bywyd y person ifanc hwnnw a gofalu nad yw'n troseddu yn y dyfodol.

Mae'r ffurflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am yr ymchwil ac yn gofyn i chi fod yn rhan o astudiaeth ymchwil. Hefyd, mae'n gofyn i chi roi caniatâd i'ch plentyn chi gymryd rhan. Gallwch ddewis p'un ai ydych chi eisiau cymryd rhan, ac a ydych am i'ch plentyn gymryd rhan hefyd. Byddwn ni'n trafod yr ymchwil hwn gyda'ch plentyn. Os ydych chi'n cytuno i'ch plentyn gymryd rhan, mae'n rhaid i'ch plentyn gytuno hefyd.

Gallech drafod unrhyw beth yn y ffurflen hon gyda'ch plentyn neu aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau neu unrhyw un rydych chi'n gyfforddus yn siarad â nhw. Gallech benderfynu a ydych am gymryd rhan wedyn ar ôl trin a thrafod pethau. Does dim rhaid i chi benderfynu ar unwaith.

Diben: Pam rydych chi'n gwneud yr ymchwil hwn?

Hoffem wybod a yw'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl ifanc. Mae'r dull Rheoli Achosion Uwch yn golygu bod gweithiwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn treulio rhagor o amser yn dod i nabod person ifanc a gwneud gweithgareddau gyda nhw sy'n helpu i wella bywyd y person ifanc a sicrhau nad yw'n troseddu yn y dyfodol.

Dewis pobl i gymryd rhan: Pam ydych chi'n gofyn i mi?

Rydyn ni'n gofyn i'ch plentyn chi gymryd rhan gan ei fod wedi gweithio ar ddull Rheoli Achosion Uwch gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Hoffem gael eu barn nhw am y dull, ac a wnaeth unrhyw wahaniaeth iddyn nhw. Rydyn ni eisiau'ch caniatâd chi i gynnwys eich plentyn.

Rydyn ni'n gofyn i chi gymryd rhan gan fod eich plentyn wedi gweithio ar ddull Rheoli Achosion Uwch gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Hoffem gael eu barn nhw am y dull, ac a yw wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'ch plentyn.

Sut cawsoch chi fy manylion cyswllt i?

Nid yw Cordis Bright wedi cael eich manylion chi. Y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sydd wedi anfon y llythyr hwn atoch chi ar ein rhan ni. Mae'ch manylion chi ganddyn nhw oherwydd bod eich plentyn yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Os byddwch chi'n cytuno i gymryd

rhan yn yr ymchwil, yna bydd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn anfon eich manylion cyswllt at Cordis Bright. Bydd eich manylion yn cael eu cadw'n gwbl ddiogel, ac ond yn cael eu defnyddio at ddiben yr ymchwil hwn.

Cymryd rhan yn wirfoddol: Oes raid i mhlentyn i wneud hyn? Oes raid i mi wneud hyn?

Does dim rhaid i chi gytuno i'ch plentyn gymryd rhan yn yr ymchwil. Does dim rhaid i chi'ch hun gyfrannu at yr ymchwil chwaith.

Os byddwch chi'n penderfynu nad ydych am i'ch plentyn gymryd rhan – neu'n penderfynu nad ydych eisiau cymryd rhan eich hun - dim problem, does dim byd yn newid. Hyd yn oed os byddwch chi'n cytuno nawr, mae croeso i chi newid eich meddwl yn nes ymlaen.

Cymryd rhan: Beth mae'r ymchwil yn ei olygu?

Os byddwch chi'n cytuno i'ch plentyn gymryd rhan yn yr ymchwil, hoffem i'w gynnwys mewn tair ffordd:

- Llenwi arolwg ar ôl iddo orffen bod yn rhan o'r dull Rheoli Achosion Uwch. Bydd hwn yn gofyn cwestiynau am ei waith gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- Hefyd, byddwn yn gofyn i'ch plentyn gwrdd ag ymchwilydd. Bydd hyn yn digwydd tua diwedd ei gyfraniad i'r dull Rheoli Achosion Uwch. Bydd yr ymchwilydd yn gofyn cwestiynau am gyfnod eich plentyn gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ac a yw wedi gwneud unrhyw wahaniaeth cadarnhaol i'w fywyd.
- Hoffem i chi ddarllen ffeil y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid am y gwaith a gyflawnwyd gyda'ch plentyn chi.

Os nad ydych am i'ch plentyn gymryd rhan yn rhai o'r rhain, neu'r holl ymchwil, rhowch wybod i ni.

Os ydych chi'n cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil eich hun, hoffem gael sgwrs ffôn â chi i ofyn sut mae'r dull Rheoli Gwaith Achosion Uwch a gwaith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi gwneud gwahaniaeth i'ch plentyn chi. Bydd hyn yn digwydd tua diwedd cyfnod eich plentyn gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Cymryd rhan – beth yw'r manteision a'r anfanteision?

Prif fantais cymryd rhan yw bydd y eich sylwadau chi a'ch plentyn yn ein helpu ni i benderfynu a yw'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Hefyd, bydd yn gyfle i chi ddweud wrthym am brofiadau'ch plentyn o weithio gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Does dim anfantais wirioneddol o gymryd rhan. Yr unig beth posib arall, yw y gallem ofyn i'ch plentyn fynychu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid am gyfarfod ychwanegol er mwyn cwrdd ag ymchwilydd. Yr unig anfantais i chi, yw y bydd angen neilltuo rhywfaint o amser i siarad dros y ffôn gyda ni. Byddwn yn trefnu amser cyfleus i chi.

Ad-daliadau: Ydw i'n cael unrhyw beth am fod yn rhan o'r ymchwil?

Ni fyddwch chi na'ch plentyn yn cael unrhyw beth am gyfrannu at yr ymchwil.

Cyfrinachedd: Ydy pawb yn mynd i wybod am hyn?

Yr unig bobl fydd yn gwybod bod eich plentyn yn rhan o'r ymchwil, yw chi, gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid eich plentyn ac ymchwilwyr Cordis Bright.

Os bydd eich plentyn yn llenwi arolwg, fydd neb yn gwybod beth sy'n cael ei ddweud ynddo (byddan nhw'n parhau'n ddienw a'u hatebion yn gwbl gyfrinachol). Os bydd eich plentyn yn cwrdd ag ymchwilydd, dim ond yr ymchwilwyr fydd yn gwybod beth sy'n cael ei ddweud (cyfarfod preifat fydd hwn). Os byddwch chi'n gadael i ni ddarllen ffeil y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid am eu gwaith gyda'ch plentyn chi, ni fyddwn yn datgelu'r cynnwys gydag unrhyw un arall.

Os byddwch chi'n cymryd rhan mewn cyfweliad dros y ffôn, dim ond ymchwilwyr Cordis Bright fydd yn gwybod beth sy'n cael ei ddweud (cyfarfod preifat fydd hwn).

Dim ond ymchwilwyr Cordis Bright fydd yn gallu gweld gwybodaeth amdanoch chi a/neu'ch plentyn sy'n cael ei chasglu fel rhan o'r ymchwil.

Yr unig adeg na fyddwn ni, o bosib, yn cadw gwybodaeth yn breifat neu'n gyfrinachol, yw os byddwch chi'n dweud rhywbeth wrthym sy'n gwneud i ni feddwl eich bod chi neu rywun arall mewn perygl.

Rhannu'r casgliadau: fydda i'n cael gwybod beth yw'r canlyniadau?

Bydd y gwaith ymchwil yn gorffen tua mis Hydref 2016. Ar ôl i ni gwblhau'r ymchwil, byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am y dull Rheoli Achosion Uwch ac a wnaeth unrhyw wahaniaeth i bobl ifanc. Hefyd, byddwn ni'n mynychu cyfarfodydd ac yn trafod ein canlyniadau gydag aelodau o Lywodraeth Cymru a staff Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. Efallai y bydd ein hadroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefannau hefyd. Os hoffech weld canlyniadau'r gwaith ymchwil, ewch i wefan Llywodraeth Cymru: http://www.llyw.cymru ar ôl mis Hydref 2016.

Ni fydd yr adroddiad yn dweud wrth bobl eich bod chi na'ch plentyn wedi cymryd rhan yn yr ymchwil (byddwch chi a'ch plentyn yn ddienw), nac yn cyfeirio at unrhyw beth a ddywedwyd gennych chi neu'ch plentyn (bydd yn gyfrinachol).

Yr hawl i wrthod neu dynnu'n ôl: Alla i ddewis peidio â chymryd rhan yn yr ymchwil? Alla i newid fy meddwl?

Does dim rhaid i chi gytuno i'ch plentyn gymryd rhan yn yr ymchwil. Does dim rhaid i chi'ch hun gymryd chwaith.

Os ydych chi'n penderfynu peidio â gadael i'ch plentyn gymryd rhan – neu ddim am gymryd rhan eich hun - dim problem, does dim yn newid. Hyd yn oed os ydych chi'n cytuno nawr, mae croeso i chi newid eich meddwl yn nes ymlaen.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cyfraniad eich plentyn

Os ydych chi'n hapus i'ch plentyn gymryd rhan yn yr ymchwil, does dim angen i chi wneud unrhyw beth. Byddwn ni'n cysylltu â'ch plentyn yn uniongyrchol i weld a yw'n fodlon cymryd rhan. Tua diwedd ei gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, byddwn yn gofyn i'ch plentyn lenwi holiadur a chwrdd ag ymchwilydd Cordis Bright.

Os ydych chi'n hapus i'ch plentyn gymryd rhan mewn rhai rhannau o'r ymchwil, ond nid y cyfan, yna cysylltwch â'r unigolyn isod.

Os nad ydych chi am i'ch plentyn gymryd rhan yn yr ymchwil o gwbl, cysylltwch â'r isod.

Enw'r unigolyn

Rhif ffôn

Eich cyfraniad chi

Os ydych chi'n hapus i gymryd rhan, does dim angen i chi wneud unrhyw beth. Bydd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn anfon eich manylion cyswllt i Cordis Bright. Yna, bydd Cordis Bright yn cysylltu â chi tua diwedd cyfnod eich plentyn gyda'r dull Rheoli Achosion Uwch er mwyn trefnu amser cyfleus i siarad dros y ffôn. Gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd.

Os nad ydych chi am gymryd rhan, yna rhowch wybod i'r canlynol.

Os ydych chi'n fodlon i'ch plentyn gymryd rhan yn yr ymchwil, ond ddim am wneud hynny eich hun, popeth yn iawn. Hefyd, mae'n iawn i chi gymryd rhan yn yr ymchwil, ond nid eich plentyn. Rhowch wybod i'r unigolyn canlynol.

Enw'r unigolyn

Rhif ffôn

Cysylltu: Â phwy alla i siarad neu ofyn cwestiynau?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymchwil, ffoniwch Colin Horswell yn Cordis Bright ar 020 7330 9170 neu colinhorswell@cordisbright.co.uk.

5. Templed ar gyfer cyfweld â phobl ifanc/gofalwyr

Cyflwyniad i'r cyfweliad

Diolch am gytuno i'm cyfarfod er mwyn siarad am dy brofiadau o'r dull Rheoli Achosion Uwch. Fel rhan o'r dull hwn, mae'r gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid) yn treulio mwy o amser yn dod i adnabod person ifanc ac yn ymgymryd â gweithgareddau gydag ef sy'n helpu i wella bywyd y person ifanc a sicrhau nad yw'n troseddu yn y dyfodol.

Cyn cychwyn, mae angen i ti wybod y canlynol:

- Hoffwn ofyn cwestiynau i ti ynglŷn â'th gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac a yw wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i dy fywyd.
- Does dim angen i ti fy nghyfarfod. Os byddi di am adael unrhyw bryd, mae croeso i ti wneud hynny.
- Os byddai'n well gen ti beidio ag ateb unrhyw un o'r cwestiynau, does dim rhaid i ti wneud hynny. Rho wybod i fi.
- Does dim atebion 'cywir' neu 'anghywir' i'r cwestiynau. Rwy'n awyddus i glywed dy farn a chlywed am dy brofiad.
- Bydd cynnwys ein sgyrsiau yn aros yn gyfrinachol. Fydda'i ddim yn eu rhannu ag unrhyw un o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid neu ag unrhyw aelod o dy deulu.
- Yr unig adeg pan na fydd modd cadw dy wybodaeth yn breifat ac yn gyfrinachol yw os wyt ti'n dweud rhywbeth wrthym sy'n gwneud i ni feddwl dy fod ti, neu rywun arall, mewn perygl o niwed difrifol.

Oes gen ti unrhyw gwestiynau?

Wyt ti'n hapus i ni barhau?

Cwestiynau

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â dy gysylltiad diweddaraf â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Yn ystod y cyfnod dan sylw roeddet ti'n gweithio gyda'r gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac yn defnyddio'r dull Rheoli Achosion Uwch. Fel rhan o'r dull hwn, mae'r gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn treulio mwy o amser yn dod i adnabod person ifanc ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag ef sy'n helpu i wella bywyd y person ifanc a gwneud yn siŵr nad yw'n troseddu yn y dyfodol.

Cwestiwn	Rhagor o wybodaeth/dilyniant
1. Pam wnest ti benderfynu cymryd rhan yn y dull Rheoli Achosion Uwch?	Os oes angen rhagor o arweiniad/strwythur: • Sut cafodd y dull ei egluro i'r person ifanc yn y dechrau? • Pa fanteision fyddai'n deillio o gymryd rhan yn ôl y person ifanc? • A oedd y person ifanc yn poeni am unrhyw beth cyn cychwyn?
2. Ar ddechrau dy gysylltiad diweddaraf â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, pa fath	Mae angen holi am y materion penodol canlynol: • lefel sefydlogrwydd mewn bywyd

Cwestiwn	Rhagor o wybodaeth/dilyniant
o gymorth neu gefnogaeth oeddet ti ei angen?	• iechyd emosiynol/iechyd meddwl (e.e. pryder, iselder, agwedd ymosodol, ymddwyn yn fyrbwyll) • gwerthoedd cymdeithasol (e.e. cyfrifoldeb cymdeithasol/cymunedol, empathi, allgaredd/haelioni) • amlder a difrifoldeb troseddu. Defnyddiwch raddfa rhwng 0 (ddim yn broblem) a 10 (problem sylweddol) os oes angen er mwyn helpu i nodi difrifoldeb neu raddfa'r pryderon neu'r flaenoriaeth gymharol ar gyfer y person ifanc, yn enwedig os yw'n nodi materion lluosog. Os oes angen rhagor o arweiniad, defnyddiwch y pynciau canlynol (o Safbwynt): • Fy iechyd corfforol • Fy iechyd meddwl/emosiynol • Fy nefnydd o gyffuriau • Fy nefnydd o alcohol • Fy mherthynas â ffrindiau • Fy mherthynas ag aelodau'r teulu • Fy addysg/hyfforddiant • Fy swydd/gyrfa • Fy nghartref/llety • Fy niogelwch • Fy agweddau • Fy nhroseddau
3. Wyt ti'n teimlo bod dy weithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi deall dy anghenion yn dda?	Defnyddiwch raddfa mesur os oes angen: 0 = dim dealltwriaeth o anghenion hyd at 10 = dealltwriaeth ragorol o anghenion. Cwestiynau dilynol: • Pa agweddau oedd y person ifanc yn eu deall yn dda? • Pa agweddau nad oedd yn eu deall yn dda? • Beth yw'r rheswm am hyn?

Cwestiwn	Rhagor o wybodaeth/dilyniant
	• Pa bethau y gellid bod wedi eu gwella? Pam?
4. Pa gymorth neu fath o waith wnest ti gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid?	Dylech archwilio'r math o waith, ei natur, ei fformat, ei ddwysedd a'i ffocws. Mae'r cwestiynau dilynol yn ystyried addasrwydd ac effeithiolrwydd.
5. A gest ti gymorth addas?	Cwestiynau dilynol: • Sut/pam? • A oedd lefel a ffocws y cymorth yn addas? • Beth oedd yn llwyddo'n dda? Pam? • Beth y gellid bod wedi ei wella? Pam?
6. A wnest ti fynd i'r afael â'r materion a oedd yn bwysicaf i ti yn gyntaf?	Defnyddiwch raddfa mesur 0-10 os oes angen. Cwestiynau dilynol: • Beth oedd yn llwyddo'n dda? Pam? • Beth y gellid bod wedi ei wella? Pam?
7. Meddylia am ein sgwrs ar ddechrau'r cyfweliad ynglŷn â'r meysydd roeddet ti angen cymorth neu gefnogaeth gyda nhw ar ddechrau dy gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid: Sut mae dy fywyd wedi newid?	Defnyddiwch raddfa mesur 0-10 os oes angen. Gweler C1 ar gyfer meysydd penodol i'w harchwilio. Hefyd, gallai fod yn ddefnyddiol gwahaniaethu rhwng newidiadau mewn gwybodaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad. Cwestiynau dilynol: • Pa agweddau sydd wedi gwella? • Pa agweddau sydd wedi aros yn ddigyfnewid? • A oes unrhyw agweddau wedi gwaethygu?
8. Meddylia am sut rwyt ti wedi llwyddo i newid. Faint o wahaniaeth wnaeth y gwaith gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (yn benodol)?	Cwestiynau dilynol: • Pa agweddau a lwyddodd i wneud gwahaniaeth? Pam? • A oedd unrhyw elfennau a fethodd wneud gwahaniaeth? Pam?

Cwestiwn	Rhagor o wybodaeth/dilyniant
	• Beth y gellid bod wedi ei wella? Pam? • A oedd asiantaeth neu aelod o staff a wnaeth fwy o wahaniaeth i helpu i wella bywyd y person ifanc na'r gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid? Pwy, sut, pam?
9. Yn ystod dy gysylltiad diweddaraf â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, a wnest ti bopeth roedd y gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r llys wedi gofyn i ti ei wneud?	Os 'naddo' yw'r ateb, a oes unrhyw beth y gallai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod wedi'i wneud i helpu i sicrhau bod y person ifanc wedi gwneud popeth y gofynnwyd iddo ei wneud? Os 'do' yw'r ateb, pa gymorth gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a gafodd y gwahaniaeth fwyaf cadarnhaol o ran helpu i sicrhau bod y person ifanc wedi bodloni gofynion ei orchymyn?
10. A oes unrhyw beth arall y gallai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod wedi ei wneud i wella dy fywyd?	
11. Ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael cysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid o'r blaen: **A oedd unrhyw beth yn wahanol am y ffordd y gwnest ti weithio gyda'r gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid y tro hwn?**	Meysydd dilynol: • Beth oedd yn wahanol? Yn benodol, a oedd dull, sgiliau neu hyder y gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn wahanol? • Beth oedd yr agweddau cadarnhaol, os o gwbl? • Beth oedd yr agweddau negyddol, os o gwbl?
12. Ar gyfer pobl ifanc a dynnodd yn ôl o'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gynnar: **Rydym yn deall na wnest ti gwblhau'r dull Rheoli Achosion Uwch yn llawn. Beth oedd y prif resymau am hynny?**	Meysydd dilynol: • Beth oedd yr agweddau cadarnhaol, os o gwbl? • Beth oedd yr agweddau negyddol, os o gwbl? • A oes unrhyw welliannau/newidiadau posibl i ddull gweithio'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a allai fod wedi lleihau'r tebygolrwydd bod y person ifanc yn tynnu yn ôl?
13. Hoffet ti wneud unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â dy gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid neu'r dull Rheoli	

Cwestiwn	Rhagor o wybodaeth/dilyniant
Achosion Uwch?	

6. Cyfweliadau gyda rhieni/gofalwyr

Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â chysylltiad diweddaraf eich plentyn â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd eich plentyn yn gweithio gyda'r gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gan ddefnyddio'r dull Rheoli Achosion Uwch. Fel rhan o'r dull hwn, mae'r gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn treulio mwy o amser yn dod i adnabod person ifanc ac yn ymgymryd â gweithgareddau gydag ef sy'n helpu i wella bywyd y person ifanc a sicrhau nad yw'n troseddu yn y dyfodol.

Cwestiwn	Rhagor o wybodaeth/dilyniant
1. Pam y gwnaethoch chi gytuno i'ch plentyn gymryd rhan yn y dull Rheoli Achosion Uwch?	Os oes angen rhagor o arweiniad/strwythur: • Sut cafodd y dull ei egluro yn y dechrau? • Pam oedd y rhiant/gofalwr yn meddwl y byddai cymryd rhan yn fanteisiol iddo? • Pam oedd yn meddwl y byddai cymryd rhan yn fanteisiol i'w blentyn? • A oedd yn poeni am unrhyw beth cyn cychwyn?
2. Ar ddechrau cysylltiad diweddaraf eich plentyn â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, pa fath o gymorth neu gefnogaeth oedd ei angen arno yn bennaf?	Mae angen holi am y materion penodol canlynol: • lefel sefydlogrwydd mewn bywyd • iechyd emosiynol/iechyd meddwl (e.e. pryder, iselder, agwedd ymosodol, ymddwyn yn fyrbwyll) • gwerthoedd cymdeithasol (e.e. cyfrifoldeb cymdeithasol/cymunedol, empathi, allgaredd/haelioni) • amlder a difrifoldeb troseddu. Defnyddiwch raddfa mesur rhwng 0 (ddim yn broblem) a 10 (problem sylweddol) os oes angen er mwyn helpu i nodi difrifoldeb neu raddfa'r pryderon neu'r flaenoriaeth gymharol ar gyfer y person ifanc, yn enwedig os yw'n nodi materion lluosog. Os oes angen rhagor o arweiniad, defnyddiwch y pynciau canlynol (o Safbwynt): • Fy iechyd corfforol • Fy iechyd meddwl/emosiynol • Fy nefnydd o gyffuriau

Cwestiwn	Rhagor o wybodaeth/dilyniant
	• Fy nefnydd o alcohol • Fy mherthynas â ffrindiau • Fy mherthynas ag aelodau'r teulu • Fy addysg/hyfforddiant • Fy swydd/gyrfa • Fy nghartref/llety • Fy niogelwch • Fy agweddau • Fy nhroseddau
3. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn deall anghenion eich plentyn yn dda?	Defnyddiwch raddfa mesur os oes angen: 0 = dim dealltwriaeth o anghenion hyd at 10 = dealltwriaeth ragorol o anghenion. Cwestiynau dilynol: • Pa agweddau oedd y person ifanc yn eu deall yn dda? • Pa agweddau nad oedd yn eu deall yn dda? • Beth yw'r rheswm am hyn? • Pa bethau y gellid bod wedi eu gwella? Pam?
4. Pa gymorth neu ba fath o waith y gwnaeth eich plentyn ymgymryd ag ef gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid?	Dylech chi archwilio'r math o waith, ei natur, ei fformat, ei ddwysedd a'i ffocws. Mae'r cwestiynau dilynol yn ystyried addasrwydd ac effeithiolrwydd.
5. I ba raddau wnaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid helpu'ch plentyn i fynd i'r afael â'r materion a oedd yn bwysicaf iddo ef a'ch teulu yn gyntaf?	Defnyddiwch raddfa mesur 0-10 os oes angen. Cwestiynau dilynol: • Beth oedd yn llwyddo'n dda? Pam? • Beth y gellid bod wedi ei wella? Pam?
6. I ba raddau oedd ffocws a dwysedd y cymorth a gafodd eich plentyn yn briodol?	Defnyddiwch raddfa mesur 0-10 os oes angen. Cwestiynau dilynol: • Beth oedd yn llwyddo'n dda? Pam? • Beth y gellid bod wedi ei wella? Pam?
7. Meddyliwch am ein sgwrs ar ddechrau'r cyfweliad ynglŷn â'r meysydd roedd eich	Defnyddiwch raddfa mesur 0-10 os oes angen.

Cwestiwn	Rhagor o wybodaeth/dilyniant
plentyn angen cymorth neu gefnogaeth gyda nhw ar ddechrau ei gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid: Sut mae bywyd eich plentyn wedi newid?	Gweler C1 ar gyfer meysydd penodol i'w harchwilio. Hefyd, gallai fod yn ddefnyddiol gwahaniaethu rhwng newidiadau mewn gwybodaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad. Cwestiynau dilynol: • Pa agweddau sydd wedi gwella? • Pa agweddau sydd wedi aros yn ddigyfnewid? • A oes unrhyw agweddau wedi gwaethygu?
8. Sut mae'ch bywyd chi a bywyd eich teulu wedi newid dros y cyfnod hwn?	Defnyddiwch raddfa mesur 0-10 os oes angen. Cwestiynau dilynol: • Pa agweddau sydd wedi gwella? • Pa agweddau sydd wedi aros yn ddigyfnewid? • A oes unrhyw agweddau wedi gwaethygu?
9. Meddyliwch am y newid sydd wedi'i sicrhau. Faint o wahaniaeth wnaeth y gwaith gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (yn benodol)?	Cwestiynau dilynol: • Pa agweddau a lwyddodd i wneud gwahaniaeth? Pam? • A oedd unrhyw elfennau a fethodd i wneud gwahaniaeth? Pam? • Beth y gellid bod wedi ei wella? Pam? • A oedd asiantaeth neu aelod o staff a wnaeth fwy o wahaniaeth i helpu i wella bywyd eich plentyn na'r gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid? Pwy, sut, pam?
10. Yn ystod cysylltiad diweddaraf eich plentyn â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid , i ba raddau oedd eich plentyn yn gallu bodloni holl ofynion ei orchymyn? A wnaeth e dorri unrhyw amod o'i orchymyn?	Os 'do' yw'r ateb, a oes unrhyw beth y gallai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod wedi'i wneud i helpu i sicrhau na fyddai'ch plentyn yn torri'r amod?

Cwestiwn	Rhagor o wybodaeth/dilyniant
	Os 'na' yw'r ateb, pa fath o gymorth gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a wnaeth y gwahaniaeth fwyaf cadarnhaol i sicrhau bod eich plentyn yn bodloni gofynion ei orchymyn?
11. A oes unrhyw beth arall y gallai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod wedi'i wneud i wella bywyd eich plentyn neu fywyd eich teulu?	
12. Ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael cysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid o'r blaen: **A oedd unrhyw beth wahanol am y ffordd y gwnaeth eich plentyn weithio gyda'r gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid y tro hwn?**	Meysydd dilynol: • Beth oedd yn wahanol? Yn benodol, a oedd dull, sgiliau neu hyder y gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn wahanol? • Beth oedd yr agweddau cadarnhaol, os o gwbl? • Beth oedd yr agweddau negyddol, os o gwbl?
13. Ar gyfer pobl ifanc a dynnodd yn ôl o'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gynnar: **Rydym yn deall na wnaeth eich plentyn gwblhau'r dull Rheoli Achosion Uwch yn llawn. Beth oedd y prif resymau am hynny?**	Meysydd dilynol: • Beth oedd yr agweddau cadarnhaol, os o gwbl? • Beth oedd yr agweddau negyddol, os o gwbl? • A oes unrhyw welliannau/newidiadau posibl i ddull gweithio'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gyda'ch plentyn a allai fod wedi ei wneud yn llai tebygol o dynnu yn ôl?
14. Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'ch cysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid neu'r dull Rheoli Achosion Uwch?	

7. Holiadur i'w gwblhau gan bobl ifanc

Mae'r arolwg hwn yn gofyn cwestiynau am dy gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (YOS) a dy gysylltiad â threial y dull newydd o weithio gyda phobl ifanc gan y tîm YOS, sef y dull Rheoli Achosion Uwch. Fel rhan o'r dull hwn, mae'r gweithiwr YOS yn treulio mwy o amser yn dod i adnabod person ifanc ac yn ymgymryd â gweithgareddau gydag ef sy'n helpu i wella bywyd y person ifanc a sicrhau nad yw'n troseddu yn y dyfodol.

Does dim rhaid i ti gwblhau'r arolwg hwn os nad wyt ti am wneud hynny. Does dim rhaid i ti ateb pob cwestiwn chwaith. Dylet adael unrhyw gwestiynau nad wyt ti eisiau eu hateb yn wag.

Mae dy ymatebion yn gyfrinachol ac yn ddienw. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn gallu dy adnabod neu wybod beth rwyt ti wedi'i ysgrifennu mewn ymateb i'r cwestiynau hyn.

Bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn cael eu defnyddio gan dîm o ymchwilwyr o gwmni Cordis Bright. Maen nhw'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a Llywodraeth Cymru i ganfod a yw'r dull Rheoli Achosion Uwch wedi helpu'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr arbrawf.

Os hoffet gael mwy o wybodaeth am hyn, hola dy weithiwr YOS neu anfon e-bost i dîm ymchwil Cordis Bright yn jyotimorar@cordisbright.co.uk neu ein ffonio ni ar 020 7330 9170.

Clicia ar 'nesaf' os wyt ti'n hapus i gwblhau'r arolwg hwn. Diolch i ti.

1. Faint yw dy oedran di?

2. Am faint o amser wnaeth dy gysylltiad diweddaraf â'r YOS bara?

   Llai na mis
   Rhwng 1 a 2 fis
   Rhwng 3 a 4 mis
   Rhwng 5 a 6
   Dros 6 mis
   Ddim yn gwybod

3. Beth yw dy orchymyn presennol/ diweddaraf?

Gorchymyn Atgyfeirio
Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid
Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid gyda Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys
Gorchymyn Cadw a Hyfforddi
Ddim yn gwybod

4. Wyt ti wedi cael cysylltiad â'r YOS o'r blaen?

   Nac ydw
   Ydw, unwaith o'r blaen
   Ydw, dwywaith o'r blaen
   Ydw, tair gwaith neu fwy o'r blaen
   Ddim yn gwybod

5. Wyt ti'n gwybod dy fod ti'n helpu'r tîm YOS i dreialu dull newydd o weithio gyda phobl ifanc? Enw'r dull hwn yw'r dull Rheoli Achosion Uwch.

   Rwy'n gwybod llawer am hyn (Ymlaen i C6)
   Rwy'n gwybod rhywfaint am hyn (Ymlaen i C6)
   Dydw i ddim yn gwybod dim am hyn (Ymlaen i C12)

6. Pam wnest ti benderfynu helpu'r tîm YOS i dreialu'r dull Rheoli Achosion Uwch?

7. Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o dy gysylltiad presennol â'r dull Rheoli Achosion Uwch?

   Rwyf wedi cwblhau'r dull Rheoli Achosion Uwch (Ymlaen i C9)
   Rwy'n parhau i gymryd rhan yn y dull Rheoli Achosion Uwch (Ymlaen i C9)
   Tynnais yn ôl o'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gynnar (Ymlaen i C8)
   Ddim yn gwybod (Ymlaen i C9)

8. Pam wnest ti dynnu yn ôl o'r dull Rheoli Achosion Uwch yn gynnar?

9. Beth wyt ti'n ei hoffi orau am y dull Rheoli Achosion Uwch?

10. Beth wyt ti'n ei hoffi leiaf am y dull Rheoli Achosion Uwch?

11. Beth oedd/sy'n wahanol rhwng y dull Rheoli Achosion Uwch a dy orchymyn/gorchmynion blaenorol gan y YOS?

12. A oedd y pethau canlynol yn broblem i ti ar DDECHRAU dy gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid? Clicia ar y botymau i nodi a oeddent yn broblem.

	Problem fawr	Problem fach	Dim problem	Ddim yn gallu cofio
Fy iechyd corfforol				
Fy iechyd meddwl/emosiynol				
Fy nefnydd o gyffuriau				
Fy nefnydd o alcohol				
Fy mherthynas â ffrindiau				
Fy mherthynas ag aelodau'r teulu				
Fy addysg/hyfforddiant				
Fy swydd/gyrfa				
Fy nghartref/llety				
Fy niogelwch				
Fy agweddau				
Fy nhroseddau				

13. A oedd y pethau canlynol wedi gwella, wedi gwaethygu, neu ddim wedi newid erbyn DIWEDD dy gysylltiad â'r YOS? Clicia ar y botymau i nodi'r newidiadau.

	Wedi gwella	Dim newid	Wedi gwaethygu
Fy iechyd corfforol			
Fy iechyd meddwl/emosiynol			
Fy nefnydd o gyffuriau			

Fy nefnydd o alcohol			
Fy mherthynas â ffrindiau			
Fy mherthynas ag aelodau'r teulu			
Fy addysg/hyfforddiant			
Fy swydd/gyrfa			
Fy nghartref/llety			
Fy niogelwch			
Fy agweddau			
Fy nhroseddau			

14. Ar sail dy atebion i'r cwestiwn uchod, faint o wahaniaeth yn gyffredinol wnaeth gweithwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i dy fywyd?

Gwahaniaeth cadarnhaol	Dim gwahaniaeth	Gwahaniaeth negyddol	Ddim yn gwybod

15. Yn ystod dy gysylltiad diweddaraf â'r YOS, i ba raddau y mae'r pethau canlynol wedi newid?

	Llawer gwell	Ychydig yn well	Dim newid	Ychydig yn waeth	Llawer gwaeth	Ddim yn gwybod
Rwy'n ceisio trin pobl eraill yn dda. Mae eu teimladau yn bwysig i mi.						
Rwy'n aflonydd, alla'i ddim aros yn llonydd yn hir.						
Rwy'n cael cur pen, poen stumog neu salwch yn aml.						
Rwy'n rhannu ag eraill fel arfer (bwyd, gemau, pinnau ysgrifennu ac ati).						
Rwy'n teimlo'n ddig iawn ac yn						

colli fy nhymer yn aml.						
Rwyf ar fy mhen fy hun gan amlaf. Rwy'n chwarae ar fy mhen fy hun neu'n osgoi cwmni eraill fel arfer.						
Rwy'n ufuddhau fel arfer.						
Rwy'n poeni llawer.						
Rwy'n helpu os oes rhywun wedi brifo, yn drist neu'n teimlo'n sâl.						
Rwy'n aflonyddu neu'n gwingo drwy'r amser.						
Mae gen i un ffrind da neu fwy.						
Rwy'n ymladd llawer. Rwy'n gallu gorfodi pobl eraill i wneud beth rwyf i am ei wneud.						
Rwy'n teimlo'n drist, yn ddigalon neu'n ddagreuol yn aml.						
Mae pobl eraill o'r un oedran yn fy hoffi fel arfer.						
Mae'n hawdd tynnu fy sylw ac mae'n anodd i mi ganolbwyntio.						
Rwy'n teimlo'n nerfus mewn sefyllfaoedd newydd. Rwy'n colli hyder yn hawdd.						
Rwy'n ymddwyn yn garedig tuag at blant iau.						
Mae pobl yn fy nghyhuddo o ddweud celwydd neu dwyllo yn aml.						
Mae plant neu bobl ifanc eraill yn gas wrthyf neu'n fy mwlio.						
Rwy'n gwirfoddoli i helpu eraill yn aml (rhieni, athrawon, plant).						
Rwy'n meddwl cyn gwneud						

rhywbeth.						
Rwy'n mynd â phethau nad ydynt yn eiddo i mi o'r cartref, yr ysgol neu rywle arall.						
Rwy'n dod ymlaen yn well ag oedolion na phobl o'r un oedran â mi.						
Rwy'n ofni llawer o bethau. Mae'n hawdd codi ofn arnaf.						
Rwy'n llwyddo i orffen fy ngwaith. Rwy'n gallu canolbwyntio'n dda.						

16. Ar sail dy atebion i'r cwestiwn uchod, faint o wahaniaeth yn gyffredinol wnaeth gweithwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i dy fywyd?

Gwahaniaeth cadarnhaol	Dim gwahaniaeth	Gwahaniaeth negyddol	Ddim yn gwybod

17. Yn dilyn dy waith gyda'r YOS, i ba raddau fyddet ti'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:

	Cytuno'n gryf	Cytuno ychydig	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno ychydig	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
Roedd fy ngweithiwr yn deall fy anghenion yn dda.						
Fe ges i'r cymorth priodol.						
Fe ges i'r cymorth priodol ar yr adeg gywir.						
Fe ges i gymorth gan y gweithiwr ar gyfer						

y pethau a oedd yn bwysicaf i mi yn gyntaf.						
Roeddwn i'n gallu bodloni amodau fy ngorchymyn diolch i'r cymorth a gefais.						
Rwy'n llai tebygol o droseddu yn y dyfodol.						
Byddai unrhyw drosedd bosibl yn y dyfodol yn llai difrifol.						
Roeddwn i'n teimlo'n ddiogel yn siarad â'm gweithiwr YOS.						
Roeddwn i'n gallu ymddiried yn fy ngweithiwr YOS.						

18. Beth yw dy farn di am bob un o'r pethau canlynol yn dilyn dy gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid?

	Da iawn	Da	Gwael	Gwael iawn
Y mannau lle wnest ti gyfarfod â dy weithiwr YOS				
Sut ges ti dy drin gan weithwyr eraill				
Sut wnaeth dy weithiwr YOS siarad â ti				
Sut wnaeth dy weithiwr YOS wrando arnat ti				

19. Beth, os o gwbl, y byddai modd ei wella am sut, pryd neu le y gwnest ti gyfarfod â dy weithiwr?

20. Beth yw dy farn di am bob un o'r pethau canlynol yn ymwneud â dy gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid?

	Da iawn	Da	Gwael	Gwael iawn
Y wybodaeth ges ti gan y gwasanaeth yn y dechrau				
Y cyfleoedd ges ti i helpu i gynllunio dy raglen / gwaith				
Y cyfleoedd ges ti i adolygu dy gynnydd				

21. Beth, os o gwbl, y byddai modd ei wella am sut y cafodd dy gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ei gynllunio?

22. Ym mha ffordd y mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi ystyried eich anghenion posibl yn ymwneud â chrefydd, diwylliant, hil neu anabledd?

23. A ges ti unrhyw broblemau gyda dy weithiwr YOS?

    Do (ymlaen i C24)
    Naddo (ymlaen i C25)

24. Pa broblemau a ges ti gyda dy weithiwr YOS, a sut cafodd y problemau hyn eu datrys?

25. O'r holl bethau a wnest ti yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ystod dy orchymyn / ymyrraeth, beth oedd y MWYAF defnyddiol i dy helpu i roi'r gorau i droseddu, neu newid dy ymddygiad?

26. O'r holl bethau a wnest ti yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ystod dy orchymyn / ymyrraeth, beth oedd y LLEIAF defnyddiol i dy helpu i roi'r gorau i droseddu, neu newid dy ymddygiad?

27. Wyt ti wedi aildroseddu / troseddu ers DECHRAU dy gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid?

    Ydw
    Nac ydw

28. Beth arall gallai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod wedi'i wneud i dy helpu i roi'r gorau i droseddu, neu newid dy ymddygiad?

29. Hoffet ti ddweud unrhyw beth arall am dy gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid?

Diolch am dreulio amser yn ymateb i'r arolwg hwn. Bydd dy atebion yn helpu i wella'r dull Rheoli Achosion Uwch yn y dyfodol. Clicia ar 'cyflwyno' i anfon dy ymateb atom.

Bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn cael eu defnyddio gan dîm o ymchwilwyr o gwmni Cordis Bright. Maen nhw'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a Llywodraeth Cymru i helpu i werthuso'r dull Rheoli Achosion Uwch a nodi a yw wedi gwneud gwahaniaeth i'r bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan. Os hoffet ti gael mwy o wybodaeth am hyn, dylet ti ofyn i dy weithiwr YOS neu anfon e-bost i dîm ymchwil Cordis Bright yn jyotimorar@cordisbright.co.uk neu ein ffonio ni ar 020 7330 9170.